# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 15 Hydref 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Ian Armstrong, Ray Bartley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Evans, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Alice Jones, Margaret McCarroll, Win Mullen-James (Is-gadeirydd), Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, David Simmons, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a Huw Williams.

Aelodau Lleol – Cynghorwyr Hugh Evans, Martyn Holland a Barbara Smith wedi mynychu ar gyfer eitemau penodol ar y rhaglen yn ymwneud â'u wardiau.

Mynychodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus ar gyfer eitem rhif 13 -15 ar y rhaglen.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Prif Gyfreithiwr – Cynllunio a Phriffyrdd (SC); Rheolwr Rheoli Datblygu (PM); Prif Swyddog Cynllunio (IW); Swyddog Cynllunio (DS); Rheolwr Polisi a Chynllunio Datblygu (AL); Uwch Swyddog Mwynau a Chynllunio Cymru (MS) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Peter Evans, Colin Hughes a Pat Jones

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Hugh Evans – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 7 ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Dewi Owens – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 12 ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Merfyn Parry – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Huw Williams – Cysylltiad Personol a Chysylltiad sy'n Rhagfarnu – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen a Chysylltiad Personol – Eitem rhif 7 ar y Rhaglen

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 10 Medi 2014 i'w cymeradwyo.

Cywirdeb – Tudalen 12 – Cais rhif. 12/2014/0611/PF – Cynghorodd y Cynghorydd Cefyn Williams nad oedd wedi cyfeirio at brisiau tai yn Nerwen.

***PENDERFYNWYD*** *–yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2014 fel cofnod cywir.*

## CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU (EITEMAU 5-12)

Cyflwynwyd ceisiadau oedd yn ceisio penderfyniad y pwyllgor ynghyd â'r dogfennau cysylltiol. Cyfeiriwyd hefyd at yr wybodaeth a gyflwynwyd yn hwyr (taflenni glas) a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen ac yn ymwneud â'r ceisiadau penodol. Er mwyn caniatáu ceisiadau aelodau'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau cytunwyd y dylid amrywio trefn rhaglen y ceisiadau fel y bo'n briodol.

### 5 CAIS RHIF. 19/2014/0702 / PFT - MAES TRUAN, LLANELIDAN, RHUTHUN

[Datganodd y Cynghorydd Huw Evans gysylltiad personol gan fod yr Ymgeisydd wedi gwneud rhywfaint o waith ffermio iddo. Datganodd y Cynghorydd Huw Williams gysylltiad personol gan fod yr Ymgeisydd wedi gwneud rhywfaint o waith ffermio iddo bedair blynedd yn ôl.]

Cyflwynwyd cais ar gyfer gosod tyrbin gwynt 30.5m uchder both ac 45.07m i flaen y llafn, bocs rheoli a gwaith cysylltiedig ym Maes Truan, Llanelidan.

**Siaradwyr Cyhoeddus-**

Mr M. Brooker **(Yn Erbyn)** – amlygu pryderon ynglŷn â thirwedd ac effaith weledol ynghyd â lefelau sŵn tyrbin o'r fath.

Mr A. Jones, yr ymgeisydd **(O Blaid)** – eglurodd gysylltiadau'r teulu gyda'r ardal a'r gymuned ffermio a bod angen arallgyfeirio er mwyn darparu hyfywedd y fferm yn y dyfodol.

**Trafodaeth Gyffredinol -** Crynhodd y Swyddog Cynllunio'r adroddiad a'r rhesymau dros argymhelliad y swyddogion i wrthod y cais yn seiliedig ar effaith ar dirwedd a'r effaith weledol. Ymatebodd y Swyddogion i nifer o faterion gweithdrefnol a godwyd mewn perthynas â'r cais, yn enwedig o ran y broses ymgynghori.

Yn dilyn cadarnhad na fyddai'r sŵn yn cael effaith andwyol ar yr eiddo cyfagos, siaradodd y Cynghorydd Hugh Evans (Aelod Lleol) o blaid y cais, gan gredu fod y buddiannau economaidd lleol yn drech na'r pryderon cynllunio a godwyd.

Yn ystod trafodaeth fanwl ystyriodd yr aelodau fuddiannau'r cais gan drafod, yn helaeth, ynglŷn â'r ystyriaethau cynllunio perthnasol a'r polisïau perthnasol. Derbyniwyd yn gyffredinol y byddai arallgyfeiriad y prosiect yn sicrhau hyfywedd y fferm ac yn fuddiol i'r gymuned leol ehangach ac roedd rhan fwyaf o'r drafodaeth yn ceisio sefydlu os oedd y buddiannau hynny'n drech na'r effaith weledol a'r ystyriaethau eraill. Ystyriodd yr Aelodau faint a lleoliad y tyrbinau yn yr ardal mewn perthynas â safle'r cais ac eglurodd y swyddogion y rhesymeg tu cefn i'r penderfyniadau cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygiadau tyrbinau eraill. Nodwyd fod caniatâd ar gyfer tyrbin 15kW ar y safle yn parhau hyd fis Ionawr 2015. Roedd y mater a oedd cymeradwyo'r cais hwn yn ychwanegu at ledaeniad tyrbinau gwynt yn

yr ardal yn ddadleuol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd gan Gydbwyllgor Ymgynghorol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Chyfoeth Naturiol Cymru. Nodwyd nad oedd Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE yn ymgynghorai statudol ac nad oeddent wedi cynnal ymweliad safle gan arwain at gwestiynau ynglŷn â digonedd eu hymateb a'u rôl yn y broses. Er bod y swyddogion wedi rhoi pwysau sylweddol i ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru roedd cryfder eu sylwadau hwyr yn destun trafodaeth hefyd. Ystyriodd yr Aelodau'r effaith ar eiddo cyfagos a darparodd y swyddogion sicrwydd y gellid rheoli'r sŵn yn effeithiol gydag amodau cynllunio i sicrhau na fyddai effaith andwyol a nodwyd llythyr cefnogaeth gan gymydog cyfagos.

**Cynnig –** Ystyriodd y Cynghorydd Stuart Davies bod achos hyfyw ar gyfer arallgyfeirio fferm, a bod y buddiannau'n drech na'r pryderon cynllunio eraill, ac fe gynigodd, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Merfyn Parry, bod y cais yn cael ei gymeradwyo, yn groes i argymhelliad y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 6
YMATAL - 3

Yn dilyn penderfyniad aelodau'r pwyllgor gofynnwyd iddynt bleidleisio os dylid cyflwyno adroddiad ynglŷn â'r amodau cynllunio a materion cytundeb cyfreithiol i'r pwyllgor i'w gymeradwyo neu os dylid rhoi pwerau dirprwyol i swyddogion mewn cydweithrediad â'r Cadeirydd a'r Aelod Lleol.

**PLEIDLAIS:**
ADRODD YN ÔL I'R PWYLLGOR -11
DIRPRWYO PWERAU I'R SWYDDOGION - 16
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CANIATÁU'R*** *cais yn groes i argymhelliad y swyddog, ac y dylid rhoi pwerau dirprwyol i'r swyddogion, mewn cydweithrediad â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Aelod Lleol, i roi amodau cynllunio ar y cais ac i ymdrin â materion cytundeb cyfreithiol sy'n deillio o hynny.*

**6 CAIS RHIF. 31/2013/1079 / PFHY - TIR YN ELWY MEADOWS, FFORDD ISAF DINBYCH, LLANELWY**

Roedd cais wedi'i gyflwyno er mwyn gosod cynllun hydro-drydan micro ar dir yn Elwy Meadows, Ffordd Isaf Dinbych, Llanelwy. Gofynnodd y Swyddogion am gael gohirio'r cais er mwyn gallu cyflawni ymgynghoriadau ychwanegol.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Meirick Davies, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Dewi Owens, bod y cais yn cael ei ohirio'n unol â chais y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID GOHIRIO – 27
YN ERBYN GOHIRIO-0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **GOHIRIO'R** cais er mwyn ymgynghori ymhellach.*

Ar y pwynt hwn (11.00 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

**7 CAIS RHIF. 41/2013/0857 / PF – TŶ TAFARN DINORBEN ARMS, BODFARI, DINBYCH**

Cyflwynwyd cais ar gyfer newid defnydd a thrawsnewid, gan ddymchwel yn rhannol, cyn dŷ tafarn i ffurfio 1 Annedd a chodi garej ar wahân tu cefn i Dŷ Tafarn Dinorben Arms, Bodfari, Dinbych.

**Siaradwyr Cyhoeddus-**

Mr. A. Williams **(Yn Erbyn) –** gofynnodd i'r aelodau gymhwyso eu polisïau'n llym gan ddadlau nad oedd y cais yn diwallu meini prawf newid defnydd yn yr achos hwn.

Mr. T. Thackery, yr Ymgeisydd **(O Blaid)** – adroddodd ynglŷn â'r dylanwadau ariannol ac economaidd ar ôl caffael yr eiddo yn 2010 a dadleuodd yn erbyn ei hyfywedd yn y dyfodol.

**Trafodaeth Gyffredinol –** Siaradodd y Cynghorydd Barbara Smith (Aelod Lleol) yn erbyn y cais, gan gefnogi'r gwrthwynebiad a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Bodfari. Dadleuodd nad oedd y meini prawf a nodwyd ym Mholisi HEG 10 o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'u diwallu oherwydd (1) nid oedd wedi arddangos nad oedd yr eiddo'n hyfyw bellach, (2) nid oedd yr eiddo wedi'i farchnata, a (3) ni archwiliwyd pob opsiwn rhesymol arall i ganfod defnyddiwr newydd.

Ystyriodd yr aelodau fuddiannau'r cais a chwestiynu cadernid y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i Bolisi HEG 10. Mynegwyd pryderon nad oedd y meini prawf wedi'u cyflawni gan nad oedd y safle wedi'i farchnata ers 2008 ac ni ddarparwyd tystiolaeth o farchnata. Roedd safbwyntiau cymysg ynglŷn â chynaladwyedd yn y dyfodol gydag enghreifftiau o dai tafarn eithaf llwyddiannus wedi'u darparu ond cydnabuwyd hefyd bod nifer o fusnesau tebyg wedi methu. Mynegwyd pryderon ynglŷn â chyflwr yr eiddo ac er nad oedd yr aelodau'n dymuno ei weld yn dirywio ymhellach roeddent yn cydymdeimlo â safbwynt y gymuned. Cydnabu'r swyddogion nad oedd profion y polisi wedi'u diwallu'n llawn ond roeddent yn argymell y dylid rhoi'r caniatâd oherwydd y byddai'r tebygolrwydd o ddenu busnes hyfyw ar ôl blynyddoedd o esgeulustod yn annhebygol ac oherwydd y byddai'r cynnig yn sicrhau defnydd hir dymor ar gyfer yr adeilad oedd yn safle dolur llygad ar hyn o bryd. Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ynglŷn â manylion y cais a'r meysydd parcio ar y safle pe cymeradwyir y cais.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch- Roberts, bod y cais yn cael ei wrthod oherwydd eu bod wedi methu â marchnata'r eiddo mewn ymateb i Bolisi HEG 10. Awgrymwyd terfyn amser o ddeuddeg mis er dibenion marchnata.

**PLEIDLAIS:**

CYMERADWYO - 12
GWRTHOD - 15
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***GWRTHOD*** *rhoi caniatâd, yn groes i argymhelliad y swyddog, yn seiliedig ar fethiant i farchnata'r eiddo yn unol â Pholisi HEG 10 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**8 CAIS RHIF. 41/2013/0858 / LB – TŶ TAFARN DINORBEN ARMS, BODFARI, DINBYCH**

Cyflwynwyd cais adeilad rhestredig i drawsnewid, dymchwel yn rhannol ac addasu cyn dŷ tafarn i ffurfio 1 annedd gyda garej newydd ar wahân tu cefn i Dŷ Tafarn Dinorben Arms, Bodfari, Dinbych.

Eglurodd y swyddogion bod y Pwyllgor wedi gwrthod y cais cynllunio cynharach ar gyfer prif ddefnydd fel annedd ac roedd y cais hwn yn ymdrin ag effaith yr addasiadau arfaethedig yn unig. Yn dechnegol gellir cymeradwyo'r cais ond ni ellid dechrau ar y gwaith adeiladau oherwydd nid oedd caniatâd cynllunio.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch- Roberts, bod y cais yn cael ei ohirio er mwyn canfod bwriad yr ymgeisydd yn dilyn penderfyniad y pwyllgor o ran yr eitem flaenorol. Gan na chafwyd trafodaeth ynglŷn â buddiannau'r cais cynghorodd y swyddogion y byddai'n briodol ystyried ei ohirio.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID GOHIRIO – 22
YN ERBYN GOHIRIO – 4
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***GOHIRIO'R*** *cais er mwyn penderfynu ar fwriadau'r ymgeisydd yn dilyn penderfyniad y pwyllgor i wrthod cais cynharach i newid defnydd.*

**9 CAIS RHIF. 06/2014/0996/PF - OROR FARM, GWYDDELWERN, CORWEN**

[Datganodd y Cynghorydd Huw Williams, fel Ymgeisydd, gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei thrafod. Datganodd y Cynghorydd Merfyn Parry gysylltiad personol am ei fod wedi delio gyda'r Ymgeisydd.]

Cyflwynwyd cais i godi sied wartheg amaethyddol, seilo bwyd a chyfleusterau trin yn Oror Farm, Gwyddelwern, Corwen.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Joan Butterfield argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Hughes.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 25

GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**10 CAIS RHIF. 15/2014/0888 / PF - TIR GER CANOL Y CAE, FFORDD Y PENTREF, ERYRYS, YR WYDDGRUG**

Cyflwynwyd cais i godi adeilad amaethyddol fel storfa a gwarchodfa stoc ar dir ger Canol y Cae, Ffordd y Pentref, Eryrys, yr Wyddgrug.

**Trafodaeth Gyffredinol –** Nid oedd gan y Cynghorydd Martyn Holland (Aelod Lleol) unrhyw wrthwynebiad mawr ond cyflwynodd nifer o faterion o ran ymgynghori a maint yr adeilad arfaethedig. Ymatebodd y swyddogion (1) eu bod wedi ymgynghori â'r cymdogion, (2) yn dilyn pryderon y Cyngor Cymuned ceisiwyd mwy o gyngor gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig oedd yn nodi bod maint yr adeilad yn rhesymol, a (3) derbyniwyd bod angen ei guddio â sgrin ac roedd wedi'i gynnwys yn amod 4 yr adroddiad.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd David Simmons argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 26
GWRTHOD – 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**11 CAIS RHIF. 43/2014/0906 / AD - 79 STRYD FAWR, PRESTATYN**

Cyflwynwyd cais i osod 2 arwydd ffasgia wedi'u goleuo'n allanol ac 1 arwydd crog wedi'i oleuo'n allanol yn rhif 79 Stryd Fawr, Prestatyn.

**Cynnig –** Gan ystyried yr amod diwygiedig o ran y lliw fel y nodwyd yn y papurau ategol hwyr cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Lleol) ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Hughes, y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 25
YMATAL - 0
GWRTHOD - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

**12 CAIS RHIF. 46/2014/0710 / PF - GWYLFA, SGWÂR BRONWYLFA, LLANELWY**

[Datganodd y Cynghorydd Dewi Owens gysylltiad personol gan ei fod yn byw yn agos at safle'r cais cynllunio.]

Cyflwynwyd cais i newid defnydd Siop Dosbarth A1 i Fwyty a Siop Cludfwyd Poeth Dosbarth A3 yng Ngwylfa, Sgwâr Bronwylfa, Llanelwy.

**Trafodaeth Gyffredinol –** Cydbwysodd y Cynghorydd Dewi Owens (Aelod Lleol) oes oedd angen siop cludfwyd poeth arall yn erbyn nifer yr eiddo gwag. Ceisiodd sicrwydd ynglŷn â rheoli arogl ac oriau agor. Amlygodd y Cynghorydd Bill Cowie (Aelod Lleol) broblemau traffig yr oedd y preswylwyr yn eu dioddef ac y byddent yn gwaethygu ar ôl cwblhau datblygiad tai Bryn Gobaith a gofynnodd i gael ailymweld â'r mater hwn. Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies am ystyriaeth i adfer y gofod parcio o flaen yr eiddo pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo. Ymatebodd y swyddogion -

- Bod amod wedi'i gynnig i sicrhau bod system echdynnu mygdarth wedi'i osod yn yr eiddo a'i fod yn diwallu gofynion yr awdurdod.
- Bod y swyddogion yn cynnig amod newydd o ran oriau agor yr eiddo a oedd yn rhesymol ar gyfer eiddo bwyd [0900-2100 dydd Llun i ddydd Sadwrn a 1100 i 2000 ddydd Sul]
- Bod yr eiddo wedi'i ddynodi o fewn ffin canol y dref a bod asesiad y Peiriannydd Priffyrdd wedi ystyried y defnydd blaenorol a'r defnydd arfaethedig ac wedi penderfynu na fyddai'n achosi materion priffyrdd.
- Er nad oedd yn rhan o'r cais hwn cytunodd y swyddogion i drafod yr awgrym i ailosod gofod parcio tu allan i'r eiddo gyda Swyddogion Priffyrdd.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Rhys Hughes argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 25
YMATAL - 0
GWRTHOD - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

## 13 MABWYSIADU NODYN CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT: 'GOFYNION PARCIO MEWN DATBLYGIADAU NEWYDD'

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, adroddiad yn cyflwyno Canllaw Cynllunio Atodol drafft 'Gofynion Parcio mewn Datblygiadau Newydd' i'w mabwysiadu yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol-

- O ran darpariaeth parcio ar gyfer myfyrwyr ysgolion uwchradd nodwyd fod gan bob ysgol eu polisi personol i ganiatáu llefydd parcio i fyfyrwyr ai peidio.

- Crybwyllwyd safbwynt y Cyngor o beidio â chefnogi fflatiau un ystafell mewn datblygiadau a gofynnodd yr aelodau am gael dileu'r cyfeiriadau at fflatiau un ystafell o'r canllawiau.
- Ceisiwyd sicrwydd a fyddai dull synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio wrth gymhwyso'r canllawiau ar gyfer datblygiadau mewn safleoedd strategol allweddol yn y dyfodol, a chadarnhaodd y Rheolwr Polisi y byddai ychydig o hyblygrwydd yn y polisi ond pwysleisiodd bwysigrwydd y gofynion parcio fel man cychwyn.
- Codwyd pryderon fod parcio annigonol wedi'i gynnig ar gyfer sectorau penodol megis anheddau hunangynhwysol ar gyfer pobl hŷn a thai, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle'r oedd cyfyngiad o ran cludiant cyhoeddus, ac roedd pryderon y byddai tai'n cael eu gwasgu at ei gilydd gan waethygu'r broblem. Ymatebodd y Rheolwr Polisi mai canllaw oedd y ddogfen yn unig ac roedd darpariaeth ar gyfer amrywiaeth er mwyn ystyried amgylchiadau lleol fyddai'n caniatáu hyblygrwydd. Mae'n debyg y byddai gan dai newydd fwy nag un ystafell wely ac roedd darpariaeth newydd o ofodau parcio ar gyfer ymwelwyr wedi'u cynnig ar gyfer datblygiadau mwy.

Gofynnodd y Cynghorydd Stuart Davies am gael diwygio ffigyrau darpariaeth parcio. Cyfeiriodd y Cynghorydd David Smith at gyfleoedd blaenorol i ymateb i'r ymgynghoriad gan gynghori y byddai angen ymgynghoriad cyhoeddus ychwanegol ar gyfer unrhyw ddiwygiadau.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd David Simmons argymhelliad y swyddog yn amodol ar ddileu'r geiriau 'fflat un ystafell' yn y tabl ar dudalen 6, paragraff 6.13, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Richard Davies.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID - 20
YN ERBYN - 2
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar ddileu 'fflat un ystafell' o'r tabl ar dudalen 6, paragraff 6.13 y ddogfen, bod yr aelodau'n mabwysiadu drafft Canllawiau Cynllunio Atodol 'Gofynion Parcio mewn Datblygiadau Newydd' yn unol â'r diwygiadau arfaethedig er mwyn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn y dyfodol.*

## 14 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL SIOPAU CLUDFWYD POETH – DRAFFT YMGYNGHORI

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus adroddiad yn cyflwyno drafft Canllaw Cynllunio Atodol ar siopau cludfwyd poeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Cyfeiriodd yr aelodau at baragraff 6.7 ynglŷn â sbwriel ac amlygwyd problemau cyfredol gan alw i gryfhau'r mesurau bod camau gorfodi llym yn cael eu cymhwyso yn erbyn troseddau gollwng sbwriel. Crybwyllwyd y cynnig o gyflwyno cyfyngiad ar siopau cludfwyd poeth ger ysgolion hefyd, yn enwedig gan fod nifer o ysgolion yn agos at ganol trefi, a chydnabuwyd fod gan yr ysgolion eu polisïau eu hunain yn nodi a ddylid caniatáu'r disgyblion i adael tir yr ysgol yn ystod amser cinio.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod ganddynt gyfle i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r ddogfen yn ystod y cyfnod ymgynghori o wyth wythnos.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Meirick Davies argymhelliad y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

***PENDERFYNWYD*** *yn unfrydol bod yr aelodau'n cymeradwyo'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar siopau cludfwyd poeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.*

## 15 DATGANIAD SEFYLLFA: BANC TIR MWYNAU YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, adroddiad yn argymell bod yr aelodau'n cytuno â datganiad sefyllfa yn dilyn cyhoeddiad Adolygiad Cyntaf Datganiad Technegol a Llythyr Eglurhaol CL-04-14 i arddangos ymrwymiad Sir Ddinbych i gyfrannu tuag at y galw am fwynau.

Roedd gofyniad i sicrhau y gwneir cyfraniad priodol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i ddiwallu'r galw am fwynau. Eglurodd yr Uwch Swyddog Mwynau a Chynllunio Cymru ynglŷn â goblygiadau adolygiad CDLl Sir Ddinbych, yn enwedig o ran cerrig wedi'u malu a thywod a graean, ynghyd â'r rhesymeg o ran termau'r datganiad sefyllfa. Yn gryno ystyriwyd bod y polisi cyfredol yn ddigon hyblyg i ddiwallu'r galw newydd pe bai'r angen oherwydd y dyraniadau cyfredol.

Mewn ymateb i'r cwestiynau eglurodd y swyddog botensial ffracio ym Modelwyddan ond cadarnhaodd nad oedd olew a nwy yn rhan o'r polisi a byddai'n cael ei drin ar wahân pe bai'n codi. Awgrymodd y Cynghorydd David Smith mai Gweithgor y CDLl fyddai'r man gorau i drafod ffracio a'i oblygiadau ar gyfer Sir Ddinbych. Amlygodd y Cynghorydd Martyn Holland nifer y chwareli anweithredol yn ei ward a holodd am botensial yn y dyfodol. Cadarnhaodd y swyddog bod digon wrth gefn yn y sir ac amlygodd ddyraniad yn y CDLl oedd yn dangos ardal a ffefrir yn Ninbych / Aberchwiler ond na chafwyd unrhyw ddiddordeb gan y diwydiant.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies argymhelliad y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Cheryl Williams.

***PENDERFYNWYD*** *yn unfrydol bod yr aelodau'n cytuno â'r datganiad sefyllfa a argymhellwyd ym mharagraff 5.1 yr adroddiad.*

## 16 Y DIWEDDARAF AR ACHOS CYDYMFFURFIAETH CYNLLUNIO

Cyflwynwyd adroddiad yn diweddaru'r aelodau ynglŷn ag achosion cydymffurfiaeth cynllunio, gan gynnwys rhai oedd wedi'u hawdurdodi'n flaenorol yn y pwyllgor ac achosion o ddiddordeb cyffredinol. Anogwyd yr aelodau i gysylltu â swyddogion perthnasol tu allan i'r cyfarfod os oeddent angen rhagor o wybodaeth ynglŷn ag achosion penodol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm.